Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Gorffennaf 2023

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[2] (y Memorandwm), gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (yr Asesiad), gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) ar 20 Mawrth 2023.

**2.** Ar 21 Mawrth 2023, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn[3].

**3.** Dyma amcanion y Bil:

- darparu fframwaith ar gyfer gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol;
- diwygio deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r canlynol:
    - y strategaeth ansawdd aer genedlaethol,
    - rheoli ansawdd aer yn lleol,
    - rheoli mwg,
    - parthau aer glân/parthau allyriadau isel, a
    - segura gan gerbydau;
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer; a
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth seinweddau genedlaethol.[4]

**4.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor)[5] dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ar 26 Ebrill 2023[6], gan:

- Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd;

---

[1] Llywodraeth Cymru, Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2023
[4] Memorandwm Esboniadol, tudalen 4
[5] John Griffiths AS ar ran Rhianon Passmore, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48
[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023

- Olwen Spiller, Dirprwy Bennaeth Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru; a
- Roger Herbert, Pennaeth Monitro, Tystiolaeth ac Asesu Ansawdd Aer, Llywodraeth Cymru.

**5.** Bu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gwneud gwaith craffu ar y Bil o ran polisi.[7]

**6.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[8]

[7] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Diben y Bil a'r angen amdano

**7.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod gwella iechyd yn un o'r rhesymau pam y mae angen y Bil, ac mae hefyd yn cyfeirio at effaith economaidd llygredd aer, yr effaith ar natur, yn ogystal ag effaith llygredd sŵn a goblygiadau ehangach ansawdd aer ar yr hinsawdd.[9]

**8.** Mae'r Memorandwm yn nodi mai Cyfarwyddebau Ewropeaidd, a deddfwriaeth Cymru a'r DU sy'n eu rhagflaenu, sydd wedi ysgogi gwelliannau ansawdd aer cenedlaethol ac ymyriadau sŵn hyd yma. Mae'n disgrifio "clytwaith o ddeddfwriaeth sŵn ddomestig sy'n deillio o'r UE" ac yn nodi nad oes angen "unrhyw strategaeth genedlaethol gyffredinol mewn deddfwriaeth". Mae'n nodi bod y Bil yn bwriadu llenwi bylchau yn y fframwaith presennol ar gyfer ansawdd aer a sŵn.[10]

## Cost y Bil

**9.** Cost gyffredinol cyflwyno'r Bil yw rhwng £63.8 miliwn a £80.9 miliwn, dros gyfnod arfarnu deng mlynedd (2023-24 i 2032-33).[11]

**10.** Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am dalu'r rhan fwyaf o gostau uniongyrchol y Bil, sef amcangyfrif o £63.7 miliwn i £80.8 miliwn. Mae hyn yn cynnwys costau staff i weithredu'r darpariaethau yn y Bil, i sefydlu targedau ansawdd aer, costau parhaus i fonitro ansawdd aer a chronfa i helpu awdurdodau lleol i ddarparu'r gyfundrefn ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Fel rhan o'r costau hynny, amcangyfrifir y bydd costau trosiannol o rhwng £11.2 miliwn a £15.7 miliwn, ac mae'r gweddill yn ailadroddus.[12]

**11.** Mae tua £10.4 miliwn i £14.9 miliwn o'r costau yn gostau cyfalaf, mewn perthynas â threfniadau gwell ar gyfer monitro ansawdd aer.[13]

**12.** Dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn rhan o gyfres o Filiau sy'n ymwneud â pholisïau aer glân Llywodraeth Cymru.[14] Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a oedd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid y gallai fod yn rhaid iddynt ysgwyddo costau oherwydd cynigion o fewn y Bil, ymatebodd fel a ganlyn:

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 9 – 11
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 12
[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 82
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 82
[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 81
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 13

> *"This has been quite a complicated thing to do. We've engaged with a very wide range of stakeholders across the piece, local authorities in particular, but a wide range of other stakeholders, including the cross-party group and an enormous range of other people with an interest."*[15]

**13.** Dywedodd y Gweinidog mewn perthynas ag ymwybyddiaeth y cyhoedd y byddai'n canolbwyntio ar y rhannau sylweddol newydd o'r Bil, sef y rhannau ar fonitro a data ansawdd aer ac, yn benodol, canlyniad y gwaith o osod targedau ar gyfer $PM_{2.5}$[16].[17] Wrth drafod gweddill y Bil, ychwanegodd:

> *"The rest of it tidies up stuff, and I hope that that will help with the public education and perception piece, because it'll be easy to see what we're supposed to do rather than have to have a PhD in figuring it out through various pieces of law. But I think, overarchingly, the issue is to reduce the amount of particulates in our air, so we shouldn't lose sight of the fact that that's really what all of this is about."*[18]

**14.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa waith a oedd wedi'i wneud i amcangyfrif costau llygryddion ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r effaith y bydd y Bil hwn yn ei chael ar y costau hynny.

**15.** Dywedodd y Gweinidog fod hyn wedi bod yn gymhleth i'w asesu o ystyried bod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y data o'r blynyddoedd diwethaf.[19] Ychwanegodd:

> *"…COVID has significantly impacted, actually, on travel patterns… And, obviously, that is also changing what we're trying to do with the Bill, because a lot of the emissions that we're looking at are from traffic. So, that has an impact as well."*[20]

**16.** Dywedodd y Gweinidog ei fod yn Fil fframwaith, sydd i bob pwrpas yn caniatáu i Lywodraeth Cymru roi targedau penodol mewn rheoliadau, felly bydd rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil yn dibynnu ar y targedau a osodir.[21] Fodd

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 13
[16] Deunydd gronynnol mân
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 138
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 139
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 19
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 19
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 14

bynnag, dywedodd yn ddiweddarach nad yw'n Fil fframwaith llwyr, gan nodi bod llawer o fanylion ynddo.[22]

## Barn y Pwyllgor

**17.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gwella iechyd yn sbardun allweddol i'r Bil hwn ochr yn ochr â lliniaru effaith economaidd llygredd aer a'i effaith ar natur, a llygredd sŵn a goblygiadau ehangach ansawdd aer i'r hinsawdd. Clywsom gan y Gweinidog ei bod wedi bod yn gymhleth asesu'r costau sy'n ymwneud â'r Bil hwn, o ystyried y data sydd ar gael, ac rydym yn nodi bod sawl agwedd ar y ddeddfwriaeth. Mae lefel yr ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid wrth ddatblygu'r Bil yn galonogol inni, ond rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu parhaus wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r manylion mewn rheoliadau.

**18.** Mae'r Pwyllgor yn nodi honiad y Gweinidog mai'r rhan fwyaf arwyddocaol o'r Bil yw'r rhan sy'n ymwneud â monitro a data ansawdd aer, yn benodol, gosod targedau ar gyfer y deunydd gronynnol mân $PM_{2.5}$. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod nifer o'r darpariaethau eraill o fewn y Bil yn ffurfioli trefniadau sydd eisoes yn cael eu dilyn gan Lywodraeth Cymru.

**19.** Er ein bod yn nodi bod y Bil yn cynnwys rhai darpariaethau manwl, mae rhai elfennau sy'n creu fframwaith yn unig, lle caiff y manylion eu nodi mewn rheoliadau yn y dyfodol. Felly, mae'n siomedig na ellir darparu costau llawn ar gyfer elfennau arwyddocaol o'r Bil gan na fydd y goblygiadau ariannol llawn yn hysbys nes bod y rheoliadau'n cael eu gwneud. Mae sylwadau ychwanegol ynghylch goblygiadau cost rheoliadau penodol a wneir o dan y Bil hwn yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 17

# 3. Targedau cenedlaethol a hyrwyddo ymwybyddiaeth

## Targedau cenedlaethol

**20.** Mae'r Bil yn creu fframwaith sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau ansawdd aer hirdymor yng Nghymru drwy reoliadau. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targed penodol, drwy reoliadau, mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o ddeunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) yn yr aer amgylchynol yng Nghymru, o fewn tair blynedd ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.[23]

**21.** Mae'r Asesiad yn nodi y bydd y fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi trefniadau ar waith ar gyfer casglu data, a sicrhau bod data'n cael eu cyhoeddi. Byddai'r capasiti monitro ac adrodd posibl y byddai gwasanaeth o'r fath yn ei ddarparu'n sail ar gyfer asesu cydymffurfedd â thargedau newydd ac "yn ysgogi gweithredu cydweithredol, cenedlaethol gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru ar y lefel briodol, er budd iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn y tymor hir".[24]

**22.** Mae'r costau mwyaf sy'n gysylltiedig â'r Bil yn ymwneud â'r capasiti monitro ansawdd aer. Mae amrywiaeth o gostau wedi'i nodi ar gyfer y gweithgaredd hwn. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro'r amgylchiadau y byddai'r ystod uwch o gostau yn gymwys odanynt a'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd. Dywedodd:

> *"So, again, this is all about how we get the data in in the first place and then how we use the data to set the targets. So, the Bill requires us to put in place arrangements to collect that data, and that's really important because one of the problems we've had all the way through this process is that we don't have the data necessary…*
>
> *…what we've done is we've tried to give you examples of arrangements that might be in place. So, the example that I've discussed with the officials a lot is that an enhanced air quality monitoring network for $PM_{2.5}$ would cost about £10.4 million to*

[23] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 17
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 91 – 92

> *install, and recurrent costs of up to £3.6 million. But that depends, doesn't it, on what we mean by an enhanced air quality monitoring system. And then, for further pollutants, if you want to put more monitoring equipment in, then obviously the costs increase, because the monitoring equipment has to be able to measure whatever it is that you're looking for in the air.”*[25]

**23.** O ran y capasiti monitro ansawdd aer, dywedodd y Gweinidog y byddai awdurdodau lleol neu awdurdod priffyrdd yn cyflawni'r gweithgareddau hyn, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn talu amdanynt.[26]

**24.** Gwnaeth y Gweinidog hefyd dynnu sylw at y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid canlyniadol Barnett o gynigion yn Lloegr.[27] Dywedodd:

> *“We have asked the Department for Environment, Food and Rural Affairs for further information on their proposals to fund additional $PM_{2.5}$ monitoring duties in England under the Environment Act 2021... We don't know yet whether we will get consequential funding from that; we've asked the question. If we do, then we will take as many steps as we can to seek to ring-fence that. But, as you know, consequentials that come to the Welsh Government are not necessarily used for the same thing.”*[28]

**25.** O ran capasiti monitro, mae'r Asesiad yn amcangyfrif costau cyfalaf o hyd at £10.4 miliwn i estyn capasiti monitro ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer $PM_{2.5}$, gyda chostau parhaus o hyd at £3.6 miliwn y flwyddyn. Os gosodir targedau ar gyfer llygryddion ychwanegol yn y dyfodol, amcangyfrifir y byddai costau prynu a gosod cyfalaf dangosol hyd at £14.9 miliwn a chostau rheoli a chynnal a chadw parhaus cysylltiedig hyd at £5.7 miliwn y flwyddyn.[29] Mae'r Asesiad yn nodi fel a ganlyn:

> *"Disgwylir y bydd costau ar gyfer gwella'r rhwydwaith ansawdd aer cenedlaethol yn codi yn y blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/2027, gyda chostau parhaus yn dechrau yn ystod*

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraffau 32 a 33
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 40
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 40
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 40
[29] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 92

> *2027/2028, ar ôl i'r Gweinidogion ystyried y cynigion ar gyfer targedau ansawdd aer."*[30]

**26.** Eglurodd y Gweinidog fod angen i'r targedau fod yn gyraeddadwy ond yn uchelgeisiol[31] gan nodi y gallant newid yn ôl y dystiolaeth. Dywedodd nad yw'r targedau ar wyneb y Bil oherwydd ein bod am allu gwella'r targedau hynny dros amser[32]. Dywedodd hefyd:

> *"But we think we've covered off that in terms of the amount of money that we've put aside. So, we've made very educated guesstimates of what that might look like, it's just that they're not firm enough for us to put a figure to it.... But, just in terms of the targets themselves, that's the way it's structured, and the cost of implementing this is very much tied up with what the targets are, to some extent."*[33]

**27.** Dywedodd y bydd gwaith ychwanegol wedi'i wneud gyda rhanddeiliaid erbyn diwedd proses ddeddfwriaethol y Bil ac y byddai ganddi well syniad o sut y gallai targedau amrywiol edrych o ran cost.[34]

**28.** Mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n gosod targedau ansawdd aer, dywedodd y Gweinidog ei bod yn hapus iawn i gyflwyno'r rheini o dan weithdrefn uwchgadarnhaol y Senedd.[35]

**29.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog faint y gallai'r costau disgwyliedig newid rhwng nawr ac adeg cyflwyno'r rheoliadau.[36] Dywedodd:

> *"Well, we think we've made a good estimate—that's the point. I don't want people to think we're just guessing here. These estimates are based on the data that we already have. They're good, professional estimates; they're not just a wet finger in the wind. So, we've done our best with that, but, obviously, we do expect them to change a bit. I would not expect them to change out of all proportion to what we're looking at here,*

[30] Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol, tudalen 92
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 27
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 17
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 17
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 16
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 28
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 66

> *because the estimates are good estimates based on the data that we've got…*
>
> *They will, however, change, because as the data comes in, we will know more about it. Then, as we put each regulation through to set the targets, we'll have a better position to give the committee at that point in time."*[37]

**30.** Ni nodir unrhyw arbedion cost na manteision â gwerth ariannol yn yr Asesiad.[38] Dywedodd y Gweinidog fod arbedion o'r Bil yn eithaf anodd eu meintioli[39] oherwydd COVID yn benodol, ond ei bod yn gwybod eu bod yno[40]. Mae'r Asesiad yn nodi fel a ganlyn:

> *"…bydd rhagor o waith er mwyn nodi gwerth ariannol y manteision yn cael ei gynnal wrth bennu'r Targedau Cenedlaethol ac wrth ystyried cyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel."*[41]

**31.** Dywedodd y Gweinidog fod gwaith wedi'i gomisiynu i ddeall baich rheoli ansawdd aer ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n rhan o'r dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chomisiynu i gael dadansoddiad o gostau a manteision yr amrywiol opsiynau. Felly, byddai'n gallu rhoi rhagor o fanylion am hynny wrth i'r rheoliadau penodol gael eu cyflwyno.[42]

**32.** Mae'r Asesiad yn nodi fel a ganlyn:

> *"Yn seiliedig ar lefelau cyfartalog o ddeunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) lle mae pobl mewn cysylltiad ag ef (yn 2016), amcangyfrifir bod 3.16 miliwn o bobl yng Nghymru yn dod i gysylltiad â chrynodiadau cyfartalog o 6μg/$m^3$ o $PM_{2.5}$, sy'n cyfateb i gost o £950 miliwn y flwyddyn (amcangyfrif canolog). Mae'r amcangyfrif hwn yn cynnwys costau uniongyrchol, er enghraifft, marwolaethau dros y tymor hir, derbyniadau i'r ysbyty am broblemau anadlol, clefyd coronaidd y galon,*

[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraffau 67-68
[38] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 83
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 29
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 29
[41] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 83
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 20

> *strociau, asthma mewn plant a chanser; a chostau anuniongyrchol fel cynhyrchiant ac adeiladau budr."*[43]

**33.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog pa mor effeithiol fydd y Bil o ran lliniaru'r effaith hon, dywedodd:

> *"We know that it affects people, we know that it has a very substantive effect on people, but unfortunately we don't have the data to drive the exact cost-benefit of that, and so one of the things we've done is we've done an estimate of that. We know how many people who have those kinds of respiratory illnesses there are in Wales, for example; we broadly know where they are, and so on. We've done an estimate of that, and then we'll underpin that when we put the regulations in place. A lot of what we're doing here is trying to get the data necessary to get a better cost-benefit analysis."*[44]

**34.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y mecanweithiau ar gyfer casglu a monitro data a'u rhannu ar draws adrannau'r llywodraeth. Dywedodd:

> *"I can assure you that they are very keen to understand what the data sets look like, make them as accessible as possible across the Government, and get the most out of them as well. They have statisticians whose job it is to make sure that it's collected in the most useable way and that we present it in the most useable way. And obviously, it's in our interest to do that anyway."*[45]

## Hybu ymwybyddiaeth

**35.** Mae'r Asesiad yn awgrymu mai cyfanswm cost cyflwyno deddfwriaeth i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer dros y cyfnod arfarnu yw tua £4.6 miliwn.

**36.** Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddai'r gwaith o ddatblygu cynllun cyflawni i weithredu'r ddeddfwriaeth a'r gwaith ymgynghori yn arwain at gostau gweinyddol, ac mae'r Memorandwm yn awgrymu y gallai hynny gymryd 12 mis.[46] At hynny, mae'r Asesiad yn dyrannu tua £500,000 y flwyddyn ar gyfer codi ymwybyddiaeth, gyda'r gost wirioneddol yn dibynnu ar y gweithgareddau a

[43] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 85-86
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 63
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 47
[46] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 100

gynhelir. Byddai'r gost yn dechrau bod yn berthnasol ym mlwyddyn ariannol 2024–25.[47] Mae'r Asesiad yn nodi fel a ganlyn:

> *"Byddai dyraniad y swm hwn rhwng cyfalaf a refeniw yn amrywio a byddai'n dibynnu ar natur y gwaith a wneir; gwneir penderfyniad ynghylch y gwaith hwn yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddai'r gost hon yn ailadroddus ac yn codi yn dilyn cychwyn y ddeddfwriaeth, sef [d]dau fis ar ôl iddi dderbyn Cydsyniad Brenhinol - felly byddai'r gost yn dechrau bod yn berthnasol ym mlwyddyn ariannol 2024/25. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi defnyddio amcangyfrif uchaf o 500k i sicrhau cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd pan fyddwn yn cynllunio camau i'w cymryd gyda rhanddeiliaid."*[48]

**37.** Dywedodd y Gweinidog fod dau gategori mawr o ran gweithredu:

> *"…a big digital communications campaign, and we're also doing a lot of support for local initiatives in areas where we know that people need support for that. We're also really keen to support Clean Air Day and to develop a whole series of digital and physical resources to support local authorities, third sector organisations, schools, and other delivery partners to deliver those initiatives so that people do become aware of what we're doing, and the delivery plan for this Bill will include a large part of that."*[49]

## Barn y Pwyllgor

**38.** Mae'r Bil yn darparu fframwaith ar gyfer gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol ac, o'r herwydd, clywsom gan y Gweinidog y bydd rhai o amcangyfrifon y costau sy'n gysylltiedig â dyheadau'r Bil yn dibynnu ar ba dargedau a osodir mewn rheoliadau dilynol. Er hynny, rydym yn falch y bydd gwaith yn parhau gyda rhanddeiliaid wrth i'r Bil fynd rhagddo i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn y gallai gwahanol dargedau ei olygu o ran costau. Ni fyddai'r Pwyllgor yn disgwyl i'r costau hyn newid yn sylweddol, ac rydym yn nodi barn y Gweinidog nad yw'n disgwyl iddynt newid yn ormodol.

---

[47] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 100
[48] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 99
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 73

**39.** Fodd bynnag, rydym yn siomedig â'r diffyg data sydd ar gael i ymgymryd â rhywfaint o'r dadansoddiad o'r costau a'r manteision o fewn yr Asesiad. Rydym yn nodi'r effaith y mae COVID wedi'i chael ar y data hyn, o ystyried bod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar batrymau teithio. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y ddarpariaeth casglu a monitro data yn y Bil a gaiff ei defnyddio i osod targedau. Ymhellach, rydym yn cydnabod pwyslais y Gweinidog ar ddata a phwysigrwydd data er mwyn i'r Bil lwyddo, ac y bydd y data hynny'n cael eu rhannu ar draws y llywodraeth. Dywed y Gweinidog mai'r ddyletswydd i gasglu data yw un o rannau pwysicaf y Bil, a'i bod felly yr un mor bwysig bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r adnoddau cywir i'r gweithgareddau yn y maes hwn.

**40.** Mae'r Asesiad yn nodi gwybodaeth am gostau sylweddol lefelau uchel o ddeunydd gronynnol. O ystyried hyn, mae'n anffodus na nodir unrhyw arbedion cost na manteision â gwerth ariannol yn yr Asesiad. Er ein bod yn derbyn bod hwn yn faes cymhleth, byddai hyn wedi helpu'r Pwyllgor ac eraill i ddeall hyd a lled effaith y Bil. Er hynny, mae'n braf cael sicrwydd y Gweinidog bod rhagor o waith yn cael ei wneud i ddeall baich rheoli ansawdd aer ar awdurdodau cyhoeddus. Er ein bod yn derbyn y bydd gostyngiad mewn llygredd aer yn golygu manteision sylweddol i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, unwaith eto rydym yn disgwyl i'r Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â Rheoliadau yn y dyfodol ddangos yr amrywiol opsiynau a ystyriwyd a rhoi rhyw arwydd o lefel bosibl y newid.

**41.** Mae'r Asesiad yn nodi y bydd rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn, ac sy'n gysylltiedig â gosod targedau ansawdd aer, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yn ystod y broses graffu dywedodd y Gweinidog ei bod yn hapus iawn i reoliadau gael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol. Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor ac eraill yn cael digon o gyfleoedd i graffu ar oblygiadau ariannol unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil hwn, rydym yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ynghylch natur unrhyw weithdrefn arfaethedig ac esboniad o sut y byddai'r weithdrefn yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys amserlenni cysylltiedig.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn darparu rhagor o fanylion ynghylch unrhyw reolaeth weithdrefnol gryfach a gynigir mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn ac
- yn sicrhau bod Pwyllgorau'r Senedd a rhanddeiliaid eraill yn cael digon o gyfleoedd i graffu ar oblygiadau ariannol unrhyw reoliadau o'r fath.

**42.** Rydym hefyd yn ailadrodd argymhellion blaenorol a wnaed yn ein hadroddiadau ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) bod Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn a bod digon o amser yn cael ei ddarparu i ganiatáu i'r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig a fydd yn codi.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn a bod digon o amser yn cael ei ddarparu i ganiatáu i'r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig a fydd yn codi.

**43.** Mae'r Pwyllgor yn nodi, gyda diddordeb, y cyllid canlyniadol Barnett posibl y gall Llywodraeth Cymru ei gael mewn perthynas â'r cynigion yn Lloegr i ariannu dyletswyddau ychwanegol i fonitro $PM_{2.5}$. Rydym yn derbyn nad yw cyllid canlyniadol Barnett o reidrwydd yn cael ei glustnodi at ddibenion penodol, ond rydym yn galw ar y Gweinidog i roi diweddariad i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor, cyn gynted â phosibl, ar y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid canlyniadol Barnett mewn perthynas â'r cynigion yn Lloegr i ariannu dyletswyddau ychwanegol i fonitro $PM_{2.5}$.

**44.** Mae'r costau mwyaf sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn yn ymwneud â chapasiti monitro ansawdd aer. Mae'r Asesiad yn darparu amrywiaeth o gostau ar gyfer y gweithgaredd hwn. Clywodd y Pwyllgor y gallai targedau ar gyfer llygryddion ychwanegol yn y dyfodol gynyddu'r amcangyfrifon ar gyfer y costau prynu a gosod cyfalaf dangosol.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y gost sy'n gysylltiedig â'r capasiti monitro ansawdd aer, gan gynnwys yr amgylchiadau a allai arwain at ysgwyddo'r gost uwch bosibl ar gyfer yr ystod hwn a'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd.

# 4. Agweddau eraill ar y Bil

## Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a rheoliadau

**45.** Mae Deddf yr Amgylchedd 1995[50] (Deddf 1995) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a dyma'r Ddeddf a sefydlodd y system ar gyfer dynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Mae adran 87 o Ddeddf 1995 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n gymwys i reoliadau a wneir at ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf honno, gan gynnwys ynghylch ymgynghori.[51]

**46.** Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw'r adran hon bellach yn adlewyrchu arfer gorau mewn perthynas ag ymgynghori a'i bod felly yn briodol cryfhau'r gofynion ymgynghori yn ffurfiol.[52]

**47.** Dywedodd y Gweinidog fod y ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhestr benodol o bobl cyn addasu'r strategaeth, ac nad yw hynny'n cynnwys y cyhoedd[53]. Fodd bynnag, mae'n rhan o ganllawiau ymgynghori presennol Llywodraeth Cymru y bydd yn ymgynghori â'r cyhoedd. Felly, nid yw'r Asesiad yn amcangyfrif unrhyw gost am gryfhau gofynion ymgynghori, ac mae'n nodi bod y Bil yn rhoi statws ffurfiol i'r hyn "a fyddai'n cael ei wneud fel mater o arfer da beth bynnag".[54]

**48.** O ran effaith polisïau ansawdd aer yn y dyfodol ar awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog ei bod yn dibynnu ar sawl peth:

> *"...future policy for air quality might have a direct impact on a local authority, or it might not. It depends where they are, it depends what's in them, it depends what we're targeting. So, you know, it depends. Local authorities already consider air quality in making decisions. They are obliged to do so—they have to take it into account when making planning decisions and infrastructure decisions."*[55]

**49.** Fodd bynnag, cadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar unrhyw ddyletswyddau

[50] Deddf yr Amgylchedd 1995
[51] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 107
[52] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 31
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 87
[54] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 109
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 92

newydd a roddir arnynt ac y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu'r dyletswyddau hyn yn llawn.[56]

## Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol

**50.** Mae'r Asesiad yn dyrannu £1 miliwn y flwyddyn ar gyfer Cronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol o 2024-25.[57] Mae'r Asesiad yn nodi fel a ganlyn:

> *"...rydym wedi lansio Cronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, ac wedi'i threialu drwy gynllun peilot dau gam i nodi'r manteision ac unrhyw broblemau posibl. Cynhaliwyd y cam cyntaf rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022 ac roedd yn ariannu amrediad eang o brosiectau ansawdd aer gwerth dros £355k ar draws tri awdurdod lleol. Cafodd ail gam ei gynnal rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023 a fydd, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, yn ariannu prosiectau gwerth £100k."*[58]

**51.** Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd y Gweinidog wedi amcangyfrif y costau a'r adnoddau posibl y gallai awdurdodau lleol eu hwynebu. Cadarnhaodd y Gweinidog:

> *"...the way we've done this is we've asked local authorities directly for their costs, and we've used costs outlined in the local authority air quality action plans, and we've used bids submitted to pilot phases of the local air quality management support fund."*[59]

**52.** Dywedodd y Gweinidog y bydd y gronfa yn gwahodd ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf yr ydym wedi'u nodi sy'n ymwneud ag atal, lliniaru ac arloesi. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddisgrifio camau gweithredu sy'n ceisio gwella ansawdd aer, camau gweithredu sy'n ceisio rhoi ardal rheoli ansawdd aer ar waith, a chamau gweithredu sy'n defnyddio dulliau neu dechnolegau arloesol i wella ansawdd aer.[60] Aeth yn ei blaen i ddweud:

> *"We've got an ongoing budget of £1 million, which is enough, given the cycle that we're looking at, and we're pretty clear that that's enough, and that's because (a) not all local authorities*

[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraffau 92 a 93
[57] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 118
[58] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 118
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 108
[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 109

> *have them, and (b) they're not all on the same cycle. So, that's how it's being done. They can apply if they've published their most recent annual progress report."*[61]

## Ardaloedd rheoli mwg

**53.** Bwriad y darpariaethau rheoli mwg yn y Bil yw ei gwneud hi'n haws i awdurdodau lleol fynd i'r afael ag achosion o allyriadau mwg mewn ardaloedd rheoli mwg er mwyn lleihau llygredd aer. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni hyn drwy ddiwygio Deddf Aer Glân 1993.[62]

**54.** Mae'r costau yn yr Asesiad am gamau gorfodi mewn ardaloedd rheoli mwg yn gysylltiedig â'r pedwar awdurdod lleol sydd ag ardaloedd rheoli mwg ar hyn o bryd. Gofynnodd y Pwyllgor a oes disgwyl y bydd y Bil yn annog unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau lleol eraill i weithredu ardaloedd rheoli mwg. Dywedodd y Gweinidog:

> *"We hope that it will encourage local authorities to take a much more holistic approach to tackling poor air quality in their area, including consideration of smoke control areas, but we've based the calculations in the Bill around existing smoke control areas and anticipated costings for the four local authorities that are currently affected. If you wanted to make a new smoke control area, then the current provisions of the Clean Air Act 1993 would support that. Local authorities already support the cost of remedial measures needed to help achieve compliance, so 70 per cent of any expense is covered by that, John, so that's the existing mechanism."*[63]

**55.** O ystyried mai dim ond 70 y cant fydd yn cael ei ariannu, dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n bosibl nad yw'n rhywbeth y mae awdurdodau lleol eisiau ei wneud.[64] Yn hytrach, dywedodd fod cyflwyno ardaloedd rheoli mwg yn un o nifer o bethau yr oedd y Llywodraeth yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn eu gwneud, ac nad dyna'r ateb cywir o reidrwydd i bob awdurdod lleol; bydd rhai awdurdodau lleol yn dewis llwybr codi ymwybyddiaeth, gan ddarparu arweiniad o ran arfer gorau.[65]

---

[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 109
[62] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 42
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 111
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 117
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 112

## Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

**56.** Mae'r Bil yn ehangu'r amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru greu cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd odanynt drwy ddiwygio Deddf Trafnidiaeth 2000.[66] Byddai'r Bil yn diwygio'r Ddeddf er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynllun ar gefnffordd “at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng nghyffiniau'r gefnffordd y bydd y cynllun yn gymwys iddi” ymhlith pethau eraill.[67]

**57.** Mae'r Asesiad yn nodi na fyddai costau sefydlu cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd ond yn codi pe bai'n cael ei dderbyn bod achos dros gynlluniau o'r fath a rhoddir rhywfaint o wybodaeth am gynlluniau sydd wedi'u sefydlu yn Lloegr.[68]

**58.** O ran pa asesiad sydd wedi'i wneud o gostau posibl gweithredu cynlluniau yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog ei bod yn anodd iawn cyfrifo hynny, gan ei fod yn dibynnu ar y lleoliad a'r cynllun penodol.[69]

**59.** Dywedodd y Gweinidog y canlynol am yr asesiad o'r cynlluniau posibl:

> *“... at the M4 Newport junctions, John, which you'll be very familiar with—that's between junction 25 and junction 26 on the M4—and at the A470 Upper Boat to Pontypridd. So, we've just estimated that off the back of the current schemes. And then, what we'll do is we'll fully develop those costs as we go along, and we'll do that during the course of this year. So, by the time we get to the end of this Bill, we'll have a much better set of costs. In the meantime, I'm afraid the last estimates for those locations was back in August 2018, so we have those, but the committee will take a view about how reliable those are. You can see that I'm not convinced that they're that reliable myself. Those were around £20 million for the A470 and about £22 million for Newport, based on that estimate.”*[70]

**60.** Ychwanegodd y bydd gennym lawer mwy o ddata erbyn i ni gyflwyno'r rheoliadau.[71]

[66] Deddf Trafnidiaeth 2000
[67] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 48
[68] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 49 a 138
[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 127
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 128
[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 129

### Seinweddau

**61.** Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu bod crynodiadau o sylweddau niweidiol a thonnau sain a gludir yn yr aer yn nodweddion o amgylchedd aer lleol pobl, gan ddweud y ceir cysylltiad clos yn aml rhwng ansawdd aer lleol a phroblemau sŵn a gludir yn yr aer.[72]

**62.** Bydd y Bil yn ategu dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 i lunio cynlluniau gweithredu ar sŵn ar gyfer prif ffyrdd, prif reilffyrdd a chrynodrefi, a bydd dyletswydd ehangach ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth neu gynllun cynhwysfawr ar gyfer sŵn a seinwedd.[73]

**63.** Mae'r Asesiad yn awgrymu nad oes cost ychwanegol i lunio strategaeth neu gynllun cynhwysfawr ar gyfer sŵn a seinweddau, o'i gymharu â'r gofynion presennol. Cadarnhaodd y Gweinidog:

> *"…the current requirements are to review and update our plan in relation to certain types of noise every five years, and that's for major roads, major railways, transport and industrial noises. There is currently no statutory requirement to publish plans for any other types of sound or across Wales as a whole. But, we do have policies in place, and since 2013, we've actually chosen to include them in the overarching plan for Welsh Government that we publish every five years. So, our views, basically, don't differ very much from that. We'll have a new statutory requirement to do it, but we've been doing it anyway, so the cost involved is negligible, really; it's just presenting it slightly differently—that's our view."*[74]

## Barn y Pwyllgor

**64.** O ran y strategaeth ansawdd aer genedlaethol, rydym yn derbyn bod y Bil yn rhoi statws ffurfiol i ofynion ymgynghori y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn eu cyflawni. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod effaith cost y strategaeth ansawdd aer yn ansicr i gyrff cyhoeddus. Er hynny, rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cadarnhau yr eir ati i ymgynghori ag awdurdodau lleol ynghylch unrhyw ddyletswyddau newydd a osodir arnynt, ac y bydd y dyletswyddau newydd hynny'n cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

[72] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 57
[73] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 59
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Ebrill 2023, paragraff 134

**65.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y gronfa cefnogi rheoli ansawdd aer yn lleol wedi'i hamcangyfrif, yn rhannol, drwy'r ceisiadau a gyflwynwyd fel rhan o gyfnodau peilot. Nodwn farn y Gweinidog bod y gyllideb ar gyfer y gronfa hon yn ddigonol o ystyried na fydd pob awdurdod lleol yn cyflwyno ceisiadau yn ystod yr un cylch cyllido. Fodd bynnag, credwn y gellid darparu rhagor o eglurder yn y maes hwn a gofynnwn am ragor o wybodaeth am y broses ar gyfer cymeradwyo/peidio â chymeradwyo ceisiadau.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses ar gyfer cymeradwyo/peidio â chymeradwyo ceisiadau i'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.

**66.** Rydym yn deall bod Deddf Aer Glân 1993 yn cwmpasu ardaloedd rheoli mwg, ond mae'n ymddangos nad yw ardaloedd rheoli mwg yn opsiwn deniadol i awdurdodau lleol o ystyried y costau dan sylw. Mae hwn yn bwynt ehangach, ond yn amlwg mae'n ymwneud â dyheadau'r ddeddfwriaeth, felly byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am effaith y gwaith o ystyried a gweithredu ardaloedd rheoli mwg ar gostau awdurdodau lleol ac eraill.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am effaith y gwaith o ystyried a gweithredu Ardaloedd Rheoli Mwg ar y costau a amcangyfrifwyd i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

**67.** Rydym yn derbyn na fyddai sefydlu cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd o dan y Bil ond yn codi pe bai'n cael ei dderbyn bod achos dros gynlluniau o'r fath. O'r herwydd, bydd y costau'n cael eu cynnwys ochr yn ochr â'r rheoliadau dilynol, os oes unrhyw rai yn cael eu cyflwyno. Rydym yn ailadrodd argymhelliad 2, yn yr adroddiad hwn, mewn perthynas â darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth.

**68.** Yn olaf, o ran y darpariaethau ar seinweddau, nodwn nad oes cost ychwanegol i lunio strategaeth neu gynllun cynhwysfawr ar gyfer sŵn a seinweddau, o'i gymharu â'r gofynion presennol.